**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

15 Mai 2025

Annwyl Arweinydd,

**Bargeinion Dinesig a Thwf**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r pedair bargen ddinesig a thwf rhanbarthol yng Nghymru, ac yn ddiweddar mae wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr ymgynghoriad a'r ymchwiliad hwn.

Wrth ddatblygu'r ymchwiliad hwn, cytunodd yr Aelodau ein bod yn awyddus i glywed barn cymaint o awdurdodau lleol â phosibl, gan eich bod yn rhanddeiliaid allweddol yn y bargeinion twf. Byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau rydych chi'n gallu eu rhannu ac rydym awyddus yn benodol i glywed eich barn ar y meysydd canlynol ynghylch profiadau eich awdurdod a'ch bargen dwf:

- Hynt y gwaith hyd yma a'r amserlen ar gyfer ei wneud – gan gynnwys y cynnydd a wneir yn erbyn targedau, ac unrhyw bwysau neu heriau sy'n effeithio ar y gwaith
- Trafod rhai o'r prosiectau a'r buddsoddiadau pwysicaf – gan gynnwys unrhyw lwyddiannau allweddol neu risgiau posibl
- Deall effaith y bargeinion – gan gynnwys lledaenu'r gweithgarwch yn rhanbarthol
- Llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd - gan gynnwys rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Y buddsoddiad sydd ar gael yn y sector preifat
- Sut mae gweithgareddau'r Bargeinion Dinesig a Thwf yn cyd-fynd â'r dirwedd cymorth busnes ehangach – gan gynnwys adolygiad Llywodraeth Cymru o gymorth busnes, ac a oes cyfleoedd i gydweithredu a chydgysylltu'n fwy â Llywodraeth Cymru.

Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi cael eich cyfraniad erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 23 Mehefin 2025. Diolch ymlaen llaw am eich ymgysylltiad.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg